# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 31 Ionawr 2001 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 5:30 pm |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth:***

| | |
|---|---|
| Richard Edwards, Cadeirydd | Preseli Sir Benfro |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| David Davies | Mynwy |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

***Cyrff Allanol:***

| | |
|---|---|
| Sian James (eitem 5) | Prism Rail (ar ran Cwmnïau Trenau Cymru) |
| Justin Davies (eitem 5) | First Cymru (ar ran y Cyd-ffederasiwn Cludiant Teithwyr) |
| Martyn Walker (eitem 5) | Cymdeithas y Contractwyr Peirianneg Sifil |
| Byron Broadstock (eitem 5) | Cymdeithas y Contractwyr Peirianneg Sifil |

| | |
|---|---|
| Stuart Watkins (eitem 5) | Y Sefydliad Priffyrdd a Thrafnidiaeth (De Cymru) |
| Jon Harris (eitem 5) | Y Sefydliad Logisteg a Thrafnidiaeth |
| ***Swyddogion*** | |
| Martin Evans | Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd |
| Robin Shaw | Y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |
| Bob Macey (eitem 1) | Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd |
| Phil Bishop (eitem 1) | Is-adran yr Amgylchedd |
| Charles Coombs (eitem 4) | Pennaeth yr Uned Datblygu Cynaliadwy |
| Lisa Dobbins (eitem 4) | Yr Uned Datblygu Cynaliadwy |
| ***Yn bresennol:*** | |
| Denys Morgan (eitemau 5, 6 a 7) | Ymgynghorydd Arbenigol |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau, swyddogion ac aelodau’r cyhoedd i’r cyfarfod. Gofynnodd i’r aelodau adrodd barn grwpiau’r pleidiau yn ôl ar y cynigion i ddiwygio’r gweithdrefnau penderfyniadau cynllunio (papur EPT-01-01 (p 3)). Yr oedd pob grwp gwleidyddol, ar wahân i Grwp y Ceidwadwyr, yn fodlon â'r cynigion. Yr oedd swyddogion yn llunio newidiadau arfaethedig i’r Rheolau Sefydlog, a byddai’r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn eu cyflwyno i’r Pwyllgor Busnes.

0.2 Câi’r slot amser ar gyfer busnes anffurfiol o eiddo’r pwyllgor ddydd Iau 8 Chwefror ei ddefnyddio i drafod yr adolygiad polisi ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yr oedd Traws-Newid, grwp adfywio cymunedol o Drawsfynydd, wedi’i wahodd i roi cyflwyniad byr i’r aelodau ar ôl y cyfarfod ar 14 Chwefror am 5pm.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, eilyddion, a datganiadau o fuddiant**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Helen Mary Jones.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5 a gwnaethpwyd hynny fel a ganlyn:

- Mick Bates – partner mewn busnes ffermio;
- Geraint Davies – aelod o Gyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf a fferyllydd.

**Eitem 2: Adroddiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd** – EPT-02-01 (p 1)

2.1 Yn ychwanegol at yr eitemau yn yr adroddiad, rhoddodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y materion isod:

- Ymchwiliad Nantygwyddon – yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwilydd annibynnol. Yr oedd y gwaith o baratoi'r dystiolaeth wedi arallgyfeirio adnoddau oddi wrth ddatblygu polisi a blaenoriaethau eraill;

- Llifogydd – yr oedd £25m ar gael bellach ar gyfer gwaith atal llifogydd ac amddiffyn y glannau yng Nghymru dros y 3 blynedd nesaf, gan gynnwys y £3m ychwanegol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd. Câi'r arian ychwanegol hwn ei dargedu tuag at fuddsoddi ychwanegol mewn gwaith gan y Pwyllgor Atal Llifogydd a'r awdurdodau lleol i atal afonydd rhag gorlifo'u glannau;

- Glas Cymru – yr oedd OFWAT wedi cyhoeddi'r diwrnod hwnnw na fyddai'n rhwystro cynlluniau Glas Cymru mewn perthynas â Dŷ r Cymru cyhyd â bo Glas Cymru yn dilyn y cynllun chwe phwynt a bennwyd gan y Rheolydd. Anfonwyd copïau o ddatganiad OFWAT i'r wasg a'i bapur safbwynt at yr aelodau. Yr oedd hyn yn newyddion da ym marn y Gweinidog o ystyried y potensial y byddai prisiau'n gostwng i gwsmeriaid a chydnabyddiaeth y Rheolydd i safbwynt a barn y Cynulliad Cenedlaethol.

2.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Llifogydd – yr oedd y £25m ychwanegol ar wahân i'r ddarpariaeth o dan gynllun Bellwin, a oedd ar gyfer gwaith adfer ac atgyweirio brys;

- Y Gronfa "Gweithredu Arloesol" Ewropeaidd – holodd yr aelodau am fanylion pellach am gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Llywio Gweithredu Arloesol;

- Glas Cymru – yr oedd rhywfaint o bryder ynglyn â gallu Glas Cymru i ostwng prisiau. Nododd yr Aelodau fod OFWAT yn gosod terfynau prisiau i bob cwmni dŷ r, ond bod y gostyngiad pellach mewn prisiau sy’n cael ei ragweld yn ddibynnol ar i Glas Cymru godi’r swm gofynnol o gyfalaf ar delerau sy’n cyd-fynd â’i gynllun ariannu;

- Adolygu’r trefniadau galw-i-mewn – teimlai’r aelodau fod y Cynulliad Cenedlaethol yn galw gormod o geisiadau ynni adnewyddadwy i mewn, ac nad oedd y meini prawf galw-i-mewn yn cael eu cyfleu’n glir i ymgeiswyr. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau y byddai’r materion hyn yn cael sylw yn ei hadolygiad hi, ac yn Strategaeth Ynni Adnewyddadwy Dirprwy Brif Weinidog Cymru;

- Adolygiad Trafnidiaeth Gyhoeddus – cadarnhaodd y Gweinidog y byddai’r grwp adolygu yn edrych ar fater gostyngiadau treth tanwydd;

- Uwch-gynhadledd y Ddaear 2002 – holodd yr aelodau pa un y byddai’r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gynrychioli yn Uwch-gynhadledd y Ddaear 2002, a chytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor.

***Gweithredu:***

- *Sue Essex i roi manylion pellach i aelodau’r pwyllgor am gyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgor Llywio Gweithredu Arloesol*

- *Sue Essex i roi gwybod i aelodau’r pwyllgor sut y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ei gynrychioli yn Uwch-gynhadledd y Ddaear 2002*

**Eitem 3: Cynllun Gweithredu Drafft ar Ddatblygu Cynaliadwy** - EPT-02-01 (p 3)

3.1 Gwahoddodd Sue Essex sylwadau ar y Cynllun Gweithredu drafft cynnar. Gwaith ar y gweill oedd hwn, a gofynnwyd i’r aelodau gadarnhau a oedd lefel y manylder yn iawn. Lluniwyd y Cynllun Gweithredu ochr yn ochr â'r ddogfen "Gwell Cymru", ac yr oedd y naill ddogfen yn ategu’r llall.

3.2 Yn gyffredinol teimlai’r aelodau fod cynnydd da wedi’i wneud a llongyfarchasant yr Uned Datblygu Cynaliadwy, ond gofynasant am fanylu mwy yn y Cynllun ar flaenoriaethau trawsbynciol, ennyn cyfranogiad partneriaid, strwythurau mewnol a thargedau, ac y dylid ymchwilio i’r dolenni cyswllt rhwng y fethodoleg Gwerth Gorau ac offerynnau arfarnu cynaliadwydd.

3.3 Awgrymodd y Cadeirydd y dylai grwp adolygu gweithdrefnau’r Cynulliad a’r Panel

Cadeiryddion ystyried opsiynau ar gyfer strwythurau mewnol.

3.4 Bellach byddai swyddogion yn gweithio ar gostau a chyfyngiadau, cyn cyflwyno cynigion pellach i'r Gweinidog. Câi dadl ei chynnal ar y Cynllun Gweithredu drafft yn y cyfarfod llawn ar 15 Chwefror [fe'i had-drefnwyd yn ddiweddarach, yn amodol ar i'r Pwyllgor Busnes ystyried y mater, i 27 Chwefror].

**Eitem 4: Blaenraglen Waith Strategol** - EPT-02-01 (p 2)

4.1 Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau'r aelodau ar y rhaglen waith strategol ddrafft ar gyfer Mai 2001 i Ragfyr 2002, yn enwedig feysydd posibl i gynnal adolygiadau polisi ohonynt yn 2002.

4.2 Awgrymodd yr aelodau fod y pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd isod:

- Rheoli Gwastraff;
- Datblygu Cynaliadwy;
- Deddfwriaeth Ewropeaidd a Domestig sy'n effeithio ar bortffolio'r pwyllgor;
- Adfywio trefol a gwledig – awgrymwyd bod copïau o'r Cynllun Datblygu Gwledig i gael eu hanfon at yr aelodau;
- Materion diogelwch y ffordd.

4.3 Cytunodd y pwyllgor y byddid yn cytuno'n derfynol ar y blaenoriaethau ar gyfer 2002, megis adolygiadau polisi posibl, yn nhymor yr hydref. Yr oedd y rhain yn debygol o ganolbwyntio ar faterion a ddaw i'r amlwg o'r Strategaeth Gwastraff a'r Cynllun Gweithredu ar Ddatblygu Cynaliadwy sy'n cael eu datblygu, a'u nod fyddai ategu yn hytrach na dyblygu polisïau y mae'r Gweinidog yn eu datblygu.

4.4 Câi'r rhaglen waith ddrafft ei hanfon at y Pwyllgorau Pwnc eraill a'r Cabinet bellach am eu sylwadau. Yn y cyfamser, gofynnodd yr aelodau i'r Gweinidog ystyried y ffordd orau o roi gwybod iddynt am ddeddfwriaeth a fydd yn effeithio ar bortffolio'r pwyllgor i'r dyfodol.

***Gweithredu:***

- *Yr Ysgrifenyddiaeth i gylchredeg copi o'r Cynllun Datblygu Gwledig i aelodau'r pwyllgor.*

**Eitem 5: Adolygiad Polisi o Drafnidiaeth Gyhoeddus: Cyflwyniadau**

5.1 Clywodd y pwyllgor gyflwyniadau byr gan y cyrff isod a oedd wedi cyfrannu at yr adolygiad polisi. Anfonwyd copïau o'r dogfennau ymgynghorol a/neu'r papurau briffio at aelodau ac fe'u cyhoeddwyd ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar y we.

- Cwmnïau Trenau Cymru;
- Y Cyd-ffederasiwn Cludiant Teithwyr;
- Cymdeithas y Contractwyr Peirianneg Sifil;
- Y Sefydliad Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
- Y Sefydliad Logisteg a Thrafnidiaeth.

5.2 Trafodwyd y pwyntiau canlynol yn fwy manwl gyda'r cyflwynwyr:

- Treth tanwydd – yr oedd angen edrych ar newid y ddeddfwriaeth er mwyn caniatáu gostyngiadau ar dreth tanwydd i gerbydau trafnidiaeth gyhoeddus, gyda'r arbedion yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmeriaid;

- Integreiddio rhwng dulliau – yr oedd hyn yn hanfodol er mwyn cael mwy o bobl i ddefnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus;

- Strwythurau – cefnogai llawer o'r cyflwynwyr y cysyniad o Awdurdod Trafnidiaeth Teithwyr, neu gorff cyd-drefnu cyffelyb, i Gymru;

- Tocynnau gostyngol – yr oedd angen cynnwys trafnidiaeth ysgol a'r farchnad oedolion ifanc, gan mai nhw yw teithwyr y dyfodol;

- Tagfeydd – cafwyd barn groes ynglyn â'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r tagfeydd ar goridor yr M4 yng nghyffiniau Casnewydd;

- Cydweithredu ar draws ffiniau – dylai'r Cynulliad annog mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol a chyrff trawsffiniol;

- Diogelwch – estynnodd Sian James wahoddiad agored i'r aelodau i ddod i weld sut y mae'r cwmnïau trenau yn sicrhau diogelwch teithwyr sy'n teithio i ddigwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm a lleoliadau eraill.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr i gyd am eu cyfraniadau. Byddai'r pwyllgor yn clywed gan y grwp olaf o gyflwynwyr ar 14 Chwefror.

**Eitem 6: Adolygiad Polisi o Drafnidiaeth Gyhoeddus: adroddiad Ymgynghorydd Arbenigol** – EPT-01-01 (p 4)

6.1 Cyflwynodd Denys Morgan ei adroddiad ac amlinellodd rai bylchau yn y dystiolaeth a dderbyniwyd hyd yma lle gellid comisiynu gwybodaeth bellach, sef:

- Trafnidiaeth gymunedol;

- Cynlluniau buddsoddi’r cwmnïau gweithredu i’r dyfodol;
- Cynlluniau cynnal ffyrdd yr awdurdodau lleol.

6.2 Diolchodd y pwyllgor i Denys am ei adroddiad a chytunodd y dylid comisiynu gwybodaeth bellach yn y meysydd hyn.

**Eitem 7: Adolygiad Polisi o Drafnidiaeth Gyhoeddus: Rapporteurs yn adrodd yn ôl**

7.1 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr ar ei ymweliad â Chyngor Dinas Caeredin a Senedd yr Alban ar 26 Ionawr. Câi adroddiad ysgrifenedig ei anfon at yr aelodau a’i gyhoeddi ar safle’r Cynulliad Cenedlaethol ar y we.

7.2 Y prif wersi a ddysgwyd oedd:

- Darpariaeth ddeddfwriaethol – mae Deddf Trafnidiaeth (yr Alban) 2000 a Deddf Trafnidiaeth (Cymru a Lloegr) 2000 yn rhoi pwerau gwahanol i Senedd yr Alban a’r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â rheilffyrdd. Mae yna ddarpariaeth yn Neddf yr Alban i fynnu cydweithredu rhwng awdurdodau;

- Arferion gorau – mae yna agendor enfawr rhwng y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaeredin a phrifddinas Cymru a dinasoedd eraill;

- Gweledigaeth – ewyllys wleidyddol sydd wedi creu fframweithiau deddfwriaethol a rheoleiddio gwahanol yn yr Alban.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod ar 17 Ionawr**- EPT-01-01(min)

8.1 Mabwysiadodd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2001.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

9.1 Câi cyfarfod nesaf y pwyllgor ei gynnal am 2.00 pm ddydd Mercher 14 Chwefror 2001 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2001**